Hawdd ei Ddeall

# Newid gwasanaethau orthopedig ar gyfer y Dyfodol

## Ein cynllun ar gyfer Gwasanaethau Orthopedig – Dywedwch wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Ymgysylltu Cyhoeddus'. Newid gwasanaethau orthopedig ar gyfer y dyfodol**'.

**Mawrth 2023**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai eich bod angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae geiriau mewn **ysgrifennu glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Rydych chi'n gallu gweld beth mae'r holl eiriau mewn glas yn ei feddwl ar **dudalen 26**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn meddwl **Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe**. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

**Gwefan:** https://bipba.gig.cymru

**Ebost:** SBU.engagement@wales.nhs.uk

**Ffôn:** 01639 683355

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd i'w deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

PHOTO SYMBOLS
Licence Number 403527247

# Cynnwys

**Tudalen**

**Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma ........................................................ 2**

**Pwy ydyn ni a beth rydyn ni'n ei wneud ........................................... 4**

**Cyflwyniad ................................................................................ 6**

**Pam bod angen i ni wneud newidiadau i wasanaethau orthopedig ..........................................................................10**

**Beth sy'n digwydd os ydych chi wedi cael eich cyfeirio at wasanaethau orthopedig..........................................................12**

Lle fyddwch chi yn cael eich llawdriniaeth ................................14

Beth ydy'r anawsterau?..............................................................15

**Ein hawgrymiadau am newid gwasanaethau Orthopedig .........17**

Beth mae hyn yn ei feddwl i chi yn y dyfodol ...........................19

Sut rydych chi'n gallu elwa o'r newidiadau ar gyfer gwasanaethau Orthopedig: ......................................................21

Sut efallai na fyddwch yn elwa o'r newidiadau ar gyfer gwasanaethau Orthopedig: ......................................................22

Cydraddoldeb..............................................................................22

**Dywedwch wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl ........................23**

**Geiriau anodd .............................................................................26**

# Pwy ydyn ni a beth rydyn ni'n ei wneud

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ydyn ni (BIP Bae Abertawe).



**Rydyn ni'n cynnal gwasanaethau'r GIG i bobl sy'n byw yn:**

- Castell - nedd
- Port Talbot
- Abertawe



Rydyn ni hefyd yn rhedeg rhai gwasanaethau arbenigol i bobl sy'n byw yn bellach i ffwrdd.



**Rydyn ni yn cynllunio gwasanaethau o:**

- Meddygon Teulu
- Deintyddion
- Fferyllwyr
- Nyrsys
- Therapyddion
- Nyrsys Ysgol
- Ymwelwyr Iechyd





**Er mwyn cynllunio ein gwasanaethau, rydyn ni yn gweithio'n agos gyda:**




- Cleifion, teuluoedd a gofalwyr
- Y Gwasanaeth Ambiwlans
- Awdurdodau Lleol (Cynghorau)




- Prifysgolion
- Elusennau

# Cyflwyniad




Mae'r ddogfen yma am newidiadau i  wasanaethau orthopedig i rai o drigolion Bae Abertawe.

Mae trigolion Bae Abertawe yn bobl sy'n byw yn:



- Abertawe neu
- Castell-nedd a Phort Talbot



Mae **gwasanaethau orthopedig** yn darparu triniaeth a llawdriniaethau i bobl sy'n cael problemau gyda'u:

- Esgyrn



- Cymalau

**Rydyn ni'n helpu pobl sydd:**





- wedi cael problemau ers talwm a



- pobl sydd angen llawdriniaethau fel:
  - clun newydd ac
  - ailosod pen-glin.



**Orthopaedeg wedi'i gynllunio** ydy'r enw ar hyn.



Rydyn ni hefyd yn helpu pobl sydd wedi torri esgyrn.
**Trawma** ydy'r enw ar hyn.




Mae gennym ni wasanaethau Orthopedig yn:

- Ysbyty Treforys.
- Ysbyty Singleton.
- Ysbyty Castell-nedd Port Talbot.



Mae pa ysbyty rydych chi'n mynd iddi yn dibynnu ar y math o driniaeth sydd ei angen arnoch chi.




Rydyn ni wedi gwneud cynlluniau i newid y ffordd rydyn ni'n rhedeg gwasanaethau Orthopedig fel:



- does dim rhaid i bobl aros mor hir am driniaeth.



- mael holl drigolion Bae Abertawe yn gallu cael yr un gwasanaethau orthopedig pan maen nhw eu hangen.




Rydyn ni eisiau gwybod beth ydych chi'n feddwl am y newidiadau rydyn ni'n eu cynllunio ar gyfer ein gwasanaethau orthopedig.



Rydych chi'n gallu darganfod sut i ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl ar **dudalen 23**.

# Pam bod angen i ni wneud newidiadau i wasanaethau orthopedig



## 1.Newid ffiniau

Yn 2019 fe wnaeth ffin y Bwrdd Iechyd newid. Ffin ydy'r llinell sy'n gwahanu un ardal oddi wrth ardal arall.




**Nawr:**

- Mae'r rhan fwyaf o breswylwyr Bae Abertawe yn cael eu gwasanaethau GIG gennym ni (BIP Bae Abertawe).



- Mae'r rhan fwyaf o bobl yn byw ac o gwmpas:
  - Pen-y-bont
  - Merthyr Tudful
  - Rhondda Cynon Taf

yn cael eu gwasanaethau **GIG gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (CTM)**.



Weithiau mae meddyg teulu yn **cyfeirio** trigolion Bae Abertawe at wasanaethau Orthopedig CTM.

Mae **cyfeirio** yn meddwl ysgrifennu at wasanaeth iechyd a gofyn iddyn nhw eich gweld.



TMae hyn yn meddwl y byddan nhw ar restr aros Orthopaedeg CTM.



Dydy rhestr aros ar gyfer gwasanaethau orthopedig yn CTM ddim yn hir.




Mae ein rhestr aros ni ar gyfer gwasanaethau orthopedig yn hirach.

## 2.COVID-19



Bu’n rhaid inni roi’r gorau i’r holl lawdriniaethau Orthopedig yn ystod pandemig COVID-19. Mae hyn yn meddwl bod hyd yn oed mwy o bobl yn aros am apwyntiadau nawr.

# Beth sy’n digwydd os ydych chi wedi cael eich cyfeirio at wasanaethau orthopedig

Os ydych chi’n cael problemau gyda eich esgyrn neu gymalau nawr:



- Fe fydd eich meddyg teulu yn **eich cyfeirio** at wasanaethau Orthopedig.



- Fe fydd gennych chi **apwyntiad cleifion allanol** yn Ysbyty Castell Nedd Port Talbot.



Mae apwyntiad **cleifion allanol** yn apwyntiad yn yr ysbyty pan nad oes rhaid i chi aros dros nos.



Mae hyn yr un fath os ydych chi wedi cael eich **cyfeirio** atom ni neu at CTM.

Os oes angen llawdriniaeth arnoch chi:



- Fe fyddwch chi yn mynd ar ein rhestr aros os ydych wedi cael eich **cyfeirio** atom ni.



- Fe fyddwch chi yn mynd ymlaen i restr aros CTM os ydych chi wedi cael eich **cyfeirio** atyn nhw.

# Lle fyddwch chi yn cael eich llawdriniaeth



Os oes angen llawdriniaeth syml arnoch chi, rydych chi’n gallu cael hynny yn Ysbyty Castell Nedd Port Talbot.



Os oes angen llawdriniaeth arnoch ar eich llaw, rydych chi yn fwyaf tebygol o’i gael yn Ysbyty Singleton.



Mae hyn yr un fath os ydych chi wedi cael eich **cyfeirio** atom ni neu at CTM.



Os oes angen llawdriniaeth fwy cymhleth arnoch chi , fe fyddwch chi yn cael hynny yn:

- Ysbyty Treforys os ydych chi wedi cael eich **cyfeirio** atom ni.
- Ysbyty Tywysoges Cymru os ydych chi wedi cael eich **cyfeirio** at CTM.

# Beth ydy'r anawsterau?



Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a CTM yn defnyddio Ysbyty Castell-nedd Port Talbot ar gyfer llawdriniaethau orthopedig syml.

- Fe fydd eich llawdriniaeth yn cael ei wneud drwy:



  - Un o'n **llawfeddygon** os ydych chi wedi cael eich **cyfeirio** atom ni.



  - **Llawfeddyg** CTM  os ydych chi wedi cael eich **cyfeirio** atyn nhw.

Meddyg sydd wedi'i hyfforddi'n arbennig i wneud llawdriniaethau meddygol ydy  **Llawfeddyg**.



- Fe fyddwch chi yn cael triniaeth yn gyflymach os ydych chi'n cael eich **cyfeirio** at CTM.



Mae hyn oherwydd bod eu rhestr aros yn fyrrach.



- Does gan drigolion Bae Abertawe sy’n cael eu **cyfeirio** at CTM ddim mynediad i’n holl wasanaethau Orthopedig.

Er enghraifft: Os ydych chi’n cael eich **cyfeirio** at CTM ni fydd gennych fynediad i’n gwasanaeth Orthopedig Rhagsefydlu. Mae’r gwasanaeth yma yn cynnig:



- Dosbarthiadau ymarfer corff



- Help gyda phoen



- Cyngor am golli pwysau

# Ein hawgrymiadau am newid gwasanaethau Orthopedig

Rydyn ni eisiau sicrhau bod holl drigolion Bae Abertawe yn:



- cael eu triniaeth Orthopedig cyn gynted â phosib.



- gallu cael mynediad i'n holl wasanaethau Orthopedig.



Ar hyn o bryd, mae CTM yn defnyddio'r **theatrau llawdriniaeth** yn ysbyty Castell-nedd Port Talbot ar gyfer 13 sesiwn yr wythnos.


Ystafell mewn ysbyty lle llawdriniaethau yn cael eu gwneud ydy **theatr llawdriniaeth**.



Rydyn ni wedi siarad â CTM ac rydyn ni wedi cytuno:



- Fe fyddan nhw yn rhoi 6 o'u sesiynau **theatr llawdriniaeth** yr wythnos inni.



- Os ydych chi'n byw ym Mae Abertawe ac angen gwasanaethau Orthopedig, fe fyddwch chi yn:



  - symud ar ein rhestr aros ni os ydych chi eisoes wedi cael eich **cyfeirio** at CTM.



  - Mynd ar ein rhestr aros ni bob amser os ydych chi'n cael eich **cyfeirio** yn y dyfodol.

# Beth mae hyn yn ei feddwl i chi yn y dyfodol

Os ydych chi'n byw ym Mae Abertawe ac angen gwasanaethau Orthopedig , fe fyddwch chi yn:



- cael apwyntiad **cleifion allanol** yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot.



- os ydych chi angen llawdriniaeth, fe fyddwch chi yn:



  - mynd ar ein rhestr aros Orthopedig.



  - gweld un o'n **llawfeddygon**.



  - mynd i Ysbyty Castell-nedd Port Talbot os ydy eich llawdriniaeth yn syml.



- mynd i Ysbyty Treforys os ydy eich llawdriniaeth yn fwy cymhleth.



- cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnoch chi ar ôl eich llawdriniaeth gennym ni.



- Fe fydd unrhyw lythyrau neu wybodaeth am eich triniaeth yn dod o Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

## Sut rydych chi'n gallu elwa o'r newidiadau ar gyfer gwasanaethau Orthopedig:




- Erbyn 2024 fydd dim rhaid i neb aros dros 2 flynedd am driniaeth Orthopedig.



- Fe fydd holl drigolion Bae Abertawe yn cael mynediad i'r un gwasanaethau orthopedig.



- Fe fydd holl drigolion Bae Abertawe yn cael eu triniaeth a'u llawdriniaeth yn agosach i'w cartref.



- Fe fydd mwy o staff yn cael eu cyflogi i gefnogi ein gwasanaethau Orthopedig.



- Fydd dim un aelod o staff yn colli eu swyddi.



- Fydd dim rhaid i'r staff weithio rhywle gwahanol.

# Sut efallai na fyddwch yn elwa o'r newidiadau ar gyfer gwasanaethau Orthopedig:




- Fe fydd angen i rai pobl aros ychydig yn hirach am eu triniaeth ar y dechrau.

# Cydraddoldeb



Mae angen i ni wneud yn siŵr bod ein cynlluniau ar gyfer gwasanaethau orthopedig yn cefnogi pawb yn ein cymunedau, gan gynnwys pobl:



- sydd yn
- gyda llai o arian nag eraill.
- gyda gwahanol:
  - dewisiadau rhywiol
  - crefydd neu gredoau
  - galluoedd
  - hil, lliw ac ethnigrwydd.

# Dywedwch wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl



Fe fyddwn ni yn gofyn i bobl ddweud wrthy ni beth maen nhw'n ei feddwl am ein cynlluniau rhwng **20 Chwefror a 14 Ebrill 2023**.

**Rydych chi'n gallu dweud wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl drwy:**



Llenwi ffurflen ymateb neu ysgrifennu atom yn:

Prif Weithredwr
UHB Bae Abertawe
1 Porth Talbot
Baglan
SA12 7BR



**Ebost:** SBU.engagement@wales.nhs.uk



**Ffonio a gadael neges:** 01639 683355.

**Facebook**: [@BaeAbertaweGIG]

**Trydar:** [@BaeAbertaweGIG]



**Wyneb yn wyneb**. Fe fyddwn ni yn cynnal digwyddiadau cymunedol a sesiynau ar-lein. Rydych chi'n gallu dysgu am y digwyddiadau yma ar ein gwefan:




https://bipba.gig.cymru/amdanom-ni/ymgysylltu-ymgynghori-ar-cyhoedd/



neu ar ein cyfrifon Facebook neu Twitter.

Rydych chi hefyd yn gallu rhoi gwybod i'r **Cyngor Iechyd Cymuned** beth ydych chi'n feddwl drwy:



**Ysgrifennu atyn nhw yn:**

Cyngor Iechyd Cymuned Bae Abertawe
Ysbyty Cimla
Cimla
Castell - nedd
SA11 3SU



Neu **drwy e-bostio:** swanseabay@waleschc.org.uk

# Geiriau anodd

### Apwyntiad  cleifion allanol

Apwyntiad yn yr ysbyty pan nad oes rhaid aros dros nos.

### Cyfeirio

Ysgrifennu at wasanaeth iechyd a gofyn iddyn nhw eich gweld chi.

### Llawfeddyg

Meddyg sydd wedi'i hyfforddi'n arbennig i wneud llawdriniaethau meddygol.

### Theatr llawdriniaeth

Ystafell mewn ysbyty  lle mae llawdriniaethau'n cael eu gwneud.